Titw Tomos Las

Goddefgarwch / Parchu Eraill / Colli Cyfle

Ynghanol y pentref roedd hen ŵr a hen wraig yn byw. Dyn caredig oedd yr hen ŵr a dynes gas, angharedig oedd ei wraig. Bob dydd byddai titw tomos las yn dod i'r tŷ i gael bwyd. Doedd yr hen wraig ddim yn hoffi gweld yr aderyn yn y tŷ. Ond roedd yr hen ŵr wrth ei fodd yn ei weld.

Byddai'r titw yn glanio ar ei law a byddai'r hen ŵr yn siarad efo'r titw a rhoi maldod a bwyd iddo.

Ond doedd yr hen wraig ddim yn caru neb yn y pentref, hyd yn oed ei gŵr ei hun. Yn sicr, doedd hi ddim yn hoff o weld y titw yn hedfan o gwmpas y tŷ.

Un diwrnod, pan oedd yr hen wraig yn glanhau'r tŷ daeth y titw i mewn i chwilio am fwyd. "Dyma fy nghyfle," meddai'r hen wraig. "Reit, aderyn haerllug, paid ti â dod ar gyfyl y tŷ yma byth eto."

Rhedodd yn wyllt ar ôl y titw. Dechreuodd yntau hedfan i bob cyfeiriad. Roedd yr hen wraig yn ei ymlid efo dwster melyn. Wrth i'r aderyn daro yn erbyn y ffenestr collodd nifer o'i blu. Hedfanodd yn erbyn drych uwchben y silff ben tân. Gwelodd fod ffenestr y pantri'n lled agored. Aeth yn syth drwy'r ffenestr agored. I ffwrdd ag ef tua'r goedwig ar gwr y pentref. Ond roedd hi'n anodd hedfan ag yntau wedi colli rhai o'i blu.

Pan ddaeth yr hen ŵr adref gyda'r nos dechreuodd chwilio am y titw ymhob man. Yna, dywedodd ei wraig yr hanes wrtho. Aeth yr hen ŵr i'w wely y noson honno'n drist iawn.

Bore drannoeth aeth yr hen ŵr i chwilio am y titw. Bu'n chwibanu a galw ar y titw am oriau. Ond doedd yna ddim siw na miw yn unman. Pan oedd yr hen ŵr ar fin troi tuag adref pwy ddaeth o gwr y goedwig ond titw tomos las a glaniodd ar fraich yr hen ŵr.

"Tyrd adref efo mi," meddai'r aderyn. "Fe gei di ginio efo mi ac ar ôl i ti gael cinio fe gei di anrheg gen i i fynd adref efo ti."

Aeth yr hen ŵr adref efo'r aderyn. Ar ôl bwyta cinio blasus

rhoddodd yr aderyn ddewis i'r hen ŵr. "Pa fasged fuaset ti'n ei hoffi, y fasged drom neu'r fasged ysgafn?"
Doedd yr hen ŵr ddim eisiau bod yn farus. "Mi gymera i'r fasged ysgafn meddai."
"Diolch i ti," meddai'r hen ŵr a chychwynnodd ar ei daith adref. Ar ôl cyrraedd adref dywedodd ei stori wrth ei wraig. "Agor y fasged yna ar unwaith," meddai hithau. Agorodd yr hen ŵr y fasged. Roedd yn llawn o emau prydferth. "O," meddai'r wraig, "mi fydda ni'n gyfoethog am weddill ein bywydau. Ond pam na fuaset ti'n dod a'r fasged drom i ni. Mi af i chwilio am y titw yfory er mwyn i mi gael y fasged drom. Cyn i'r haul godi roedd y wraig ar ei ffordd i chwilio am y titw. Gwelodd y titw'n bwydo'n y goedwig. Aeth yr hen wraig i'w chartref ar gwr y goedwig. Gofynnodd iddi pa fasged fuasai'n hoffi ei chael. "Y fasged drom," meddai hithau.
Rhuthrodd o dŷ'r titw heb gymaint a diolch. Wrth iddi gerdded drwy'r goedwig roedd y fasged yn mynd yn drymach a thrymach. Arhosodd i eistedd. Roedd wedi blino'n lân. Penderfynodd gael cip olwg i mewn i'r fasged. Caeodd y caead yn dynn. Roedd pob math o bryfed a thrychfilod mawr a bach yn y fasged. Gadawodd y fasged yn y goedwig a rhedodd adref i ddweud yr hanes wrth yr hen ŵr.
"Rwy'n addo na fydda i byth yn farus ac yn flin byth eto," meddai'r hen wraig. Byth ar ôl hynny roedd hi bob amser yn garedig ac yn fwy na pharod i fwydo'r adar ac i helpu ei gŵr.

Weithiau, O Dduw, mi fydda i'n debyg iawn i'r hen wraig, eisiau, eisiau byth a hefyd.
Wnei di fy nysgu i fod yn hapus efo'r hyn sydd gen i. Amen.

✦ Lluniwch frawddegau i ddisgrifio'r
i) hen ŵr ii) yr hen wraig.
✦ Sut aderyn oedd y titw tomos las?